



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Canllaw Rheoli Ymddygiad

Cadarnhaol

Yn cynnwys defnyddio ymyriad corfforol gan staff

‘Llwyddiant i bob plentyn – Success for every child’

Cynnwys	Rhif y Dudalen
Cefndir	3
Cymorth ymddygiad cadarnhaol	5
Cosbau	7
Ymyraethau corfforol	9
Lleihau'r tebygrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen ymyriad corfforol	11
Penderfynu a ddylid defnyddio ymyriad corfforol	12
Disgyblion ag anghenion addysgol arbenigol a/neu anableddau	13
Hyfforddiant staff	14
Cofnodi ac Adrodd Digwyddiadau	15
Asesu risg a chynllunio ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol ataliol	16
Cymorth ar ôl digwyddiadau	17
Cwynion a honiadau	18
Monitro ac adolygu	19
Fframwaith ar gyfer Polisi Ysgol ar ddefnyddio ymyriad corfforol gan staff	19
Atodiad A Canllaw cryno i staff ar ddefnyddio ymyriad corfforol	21
Atodiad B Cofnodion digwyddiadau	23
Atodiad C Cynllun Ymddygiad Unigol	24
Atodiad Ch Pecyn Cymorth Cynllunio Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol	27
Atodiad D Asesu risg	40

Canllaw Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol

Yn cynnwys defnyddio ymyriad corfforol gan staff

Crynodeb

Mae'r canllaw yn

- cyfeirio at y cefndir cyfreithiol, rhesymeg dros reoli ymddygiad cadarnhaol a chanllawiau penodol ar ddefnyddio ymyriad corfforol.
- gwneud yn glir beth yw'r amgylchiadau eithriadol lle defnyddir ataliaeth gorfforol a'r ffordd y gellir ei defnyddio.
- nodi ffurflenni a gweithdrefnau cofnodi ac adrodd.
- amlygu beth i'w wneud yn dilyn digwyddiad.
- canolbwyntio ar addysg ardderchog ac ansawdd bywyd
- cadw'r person ifanc fel canolbwynt i'r cynllunio.

Cafodd y canllaw hwn ei ddatblygu yn seiliedig ar y gred fod ymddygiad sy'n heriol yn gallu cael ei wella ac yn aml ei atal drwy reoli'r amgylchedd yn ofalus ac ystyried a deall amodau lleoliad personol pob plentyn.

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar y pwerau sydd ar gael i ysgolion i helpu i reoli ymddygiad disgyblion ac ystyried pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth a chanllawiau canlynol:

- *"Defnyddio Grym Rhesymol i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion", y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 93 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, a oedd yn disodli Adran 550A o Ddeddf Addysg 1996, gyda mân newidiadau.*
- *Mae'r wybodaeth fwyaf diweddar wedi'i amlinellu yn nogfen ganllaw Rhif: 079/2013 Ymyrraeth Ddiogel ac Effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau gan Llywodraeth Cymru.*
- *Dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru: Fframwaith Lleihau Ymarfer Cyfyngol (Rhif WG38962)*

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ysgolion fel arfer yn llefydd trefnus a chynhyrchiol ar gyfer dysgu. Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cymorth i alluogi pob aelod o staff ysgol i ddelio'n effeithiol ag ymddygiad sy'n heriol, tra, ar yr un pryd, yn lleihau aflonyddwch i ddysg disgyblion eraill.

Bwriad y canllaw hwn yw sicrhau eglurder ar beth gall ysgolion ei wneud i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a hyrwyddo gwell cysondeb ar draws yr awdurdod. Bydd hyn, yn ei dro, yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc i gael eu trin yn gyson ac yn deg.

Cwricwlwm Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi **Cwricwlwm Cymru 2022** yn ei le er mwyn datblygu a hyrwyddo dulliau effeithiol mewn ysgolion yng Nghymru, sy'n cynnwys hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol wrth ddelio ag ymddygiad sy'n aflonyddu.

Mae **Cwricwlwm Cymru 2022** yn gosod iechyd a llesiant yn ganolog yng Nghymru. Mae'n darparu strwythur holistig ar gyfer deall iechyd a llesiant. Mae'n ymwneud â datblygu capasiti dysgwyr i lywio cyfleoedd a heriau bywyd. Prif elfennau'r Maes hwn yw iechyd corfforol a datblygiad, iechyd meddwl a llesiant emosiynol a chymdeithasol. Bydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol elfennau iechyd a llesiant yn cydgysylltu ac mae'n cydnabod fod iechyd a llesiant yn bwysig er mwyn sicrhau dysgu llwydiannus.

Y Pedwar Pwrpas

Mae gwirediad effeithiol y weledigaeth a ddisgrifir yn y Maes hwn yn sylfaenol ar gyfer datblygu **unigolion iach a hyderus** sydd yn barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas. Drwy ddatblygu symbyliad dysgwyr, eu gwydnwch, empathi a'u gallu i wneud penderfyniadau, gallant gael eu cefnogi i fod yn **ddysgwyr uchelgeisiol a galluog** sydd yn barod i ddysgu trwy gydol eu bwydau.

Gall dysgwyr hefyd gael eu cynorthwyo i ddyfod yn **ddinasyddion moesegol a gwybodus** o Gymru a'r byd drwy ddatblygu eu gallu i ddangos parch, rhoi gwerth ar gydraddoldeb, gwrando ar eraill a gwerthuso'r dylanwadau cymdeithasol sy'n effeithio arnynt.

Trwy alluogi dysgwyr i reoli risg, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal perthnasau iach a chymeryd gwahanol rholiau a chyfrifoldebau, gall y dysgu a'r profiad yn y Maes hwn gynorthwyo dysgwyr i ddyfod yn gyfranwyr dyfeisgar a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Beth sy'n bwysig yn y Maes hwn

Mynegwyd hyn mewn pum datganiad sy'n cefnogi ei gilydd ac ni ddylid edrych arnynt yn unigol. Er mwyn cyflawni dull gweithio holistig, dylai athrawon geisio tynnu o'r pum datganiad wrth gynllunio gweithgareddau. Dyma nhw:

- Datblygu iechyd corfforol a llesiant sydd â manteision gydol oes.
- Mae sut rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol.
- Mae'r modd yr ydym yn gwneud penderfyniadau yn cael effaith ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.
- Mae'r modd yr ydym yn ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol gwahanol yn ffurfio pwy ydym ac yn cael effaith ar iechyd a llesinat.
- Mae perthnasau iach yn allweddol er mwyn i ni deimlo ein bod yn perthyn ac i'n llesiant.

Mae Rheoliadau Cyngorau Ysgol 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru i gael cyngor ysgol a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd gan ddisgyblion ac sy'n cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r cyngor ysgol yn gyfrwng democrataidd sy'n galluogi pob disgybl i gael llais a bod y llais hwnnw'n cael ei glywed, fel y nodir yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai ysgolion ddatblygu Polisi Cyfranogi ledled yr ysgol yn nodi amrywiaeth o ffyrdd y gall disgyblion cymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ar lefelau gwahanol ym mywyd yr ysgol (e.e. gan gynnwys cyngorau dosbarth, eco-ysgolion, ysgolion iach, mentoriaid cymheiriaid, asesu ar gyfer dysgu, at acti). Mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau hyn gyda Chynadleddau Cyngor Myfyrwyr blynyddol i ddisgyblion oed cynradd ac uwchradd. Yn ogystal â hyn, mae nifer o ysgolion wedi cyflawni Dyfarniad Parchu Hawliau Ysgolion (RRSA.)

Mae pwysigrwydd llais y disgybl yn gryf ym Merthyr Tudful. Mae gan bob ysgol Gyngor Ysgol ac ers Hydref 2011, mae'r Cynadleddau Cyngorau Myfyrwyr ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys Ysgol Arbennig Greenfield wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol. Mae'r cynadleddau hyn yn caniatáu i aelodau o gyngor yr ysgol a grwpiau disgyblion eraill i weithio ar y cyd â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill er mwyn dysgu rhagor am eu profiadau a rhannu ymarfer da. Mae hyn yn rhoi cyfle delfrydol i ddisgyblion gael rhan weithgar yn natblygiad polisïau mewn meysydd sydd yn effeithio arnynt ac hysbysu cynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â hyn, mae'r modd hwn o rymuso yn galluogi gwell hunanhyder a gwydnwch.

Mae ymddygiad cadarnhaol yn fater o bryder i bob disgybl, gan sicrhau eu bod yn profi amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol. Mae polisïau perthnasol yn llawer mwy tebygol o gael eu parchu a'u dilyn pan fydd y disgyblion wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â llunio a monitro polisïau ymddygiad. Un o ganlyniadau'r Gynhadledd Cyngor Myfyrwyr oedd llunio polisïau gwrth-fwlio i ddisgyblion ar gyfer ysgolion oed cynradd ac uwchradd.

Wrth gynnwys disgyblion o ran hyrwyddo a gweithredu ymddygiad cadarnhaol, dylai ysgolion llynu at Safonau Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc Cenedlaethol i Gymru.

Dylai'r canllaw hwn gael ei weld o fewn y fframwaith cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion a bennir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 47/06 a ***"Ymyrraeth Ddiogel ac Effeithiol – Defnyddio Grym Rhesymol"*** a ***"Chwilio am Arfau"*** dogfen ganllaw Rhif 097/2013. Dylid hefyd ei ystyried ochr yn ochr â'r gyfres gyffredinol o ganllawiau ar yr agweddau hyn gan gynnwys y rhai ar gyfer gwaharddiadau, mynd i'r afael â bwlio a Chod Ymarfer AAA.

Rhaid i unrhyw ddefnydd o reoli ymddygiad cadarnhaol, mewn cysylltiad ag ymyriad corfforol, fod yn rhesymol, cymesur a chydymffurfio â:

- Pholisïau'r Awdurdod Lleol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)
- Polisïau disgyblu ac ymddygiad yr ysgol
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (fel y nodir uchod)

Cymorth ymddygiad cadarnhaol

Dylai pob aelod o staff fabwysiadu dull cadarnhaol i wella ymddygiad yn unol â Pholisi Ymddygiad yr ysgol. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau mai ymyrraeth gynnar ac ataliol yw'r norm. Dylai leihau'r achosion o ymddygiad eithriadol a gwneud yn siŵr bod y defnydd o ymyriad corfforol yn brin.

Fel awdurdod, mae Merthyr Tudful yn gweithio tuag at achrediad BILD ACT ac yn datblygu ei raglen hyfforddi ei hun – Be Positive / Bod yn Bositif. Mae hyn yn hyrwyddo Trin yn Ddiogel ac Effeithiol fel y nodir gan Jon Hull a'r strategaethau a amlinellir yn y Llawlyfr Ymddygiad, y Pecyn Cymorth Tasg a Dysgu a'i Atodiad. Bwriad y Llawlyfr yw cynnig llawlyfr gwybodaeth hygyrch i athrawon a staff cymorth yn ogystal â deunyddiau enghreifftiol ac adnoddau ar amryw o faterion sy'n berthnasol i gefnogi dysg y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n profi anawsterau ymddygiadol.

Themâu allweddol Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yw:

- Perthnasau cadarnhaol a chyfranogiad dilys
- Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person
- Triniaeth o'r amgylchedd
- Cydnabod nad yw ymddygiad heriol yn digwydd mewn gwactod hynny yw mae'n digwydd oddi fewn i'r amgylchedd
- Ymyrraeth/ ymyriad ac ataliad cynnar
- Cydnabod bod anghenion yn amrywio o blentyn i blentyn
- Dulliau sy'n canolbwyntio ar y person
- Datblygu dealltwriaeth o ymddygiad
- Dewis cynyddol a phŵer i'r disgyblion
- Cynnydd mewn sgiliau ymddygiadol i ddiwallu anghenion nad ydynt wedi'u diwallu
- Datblygu cynlluniau cymorth unigol
- Osgoi canlyniadau sy'n cynnwys cosb
- Osgoi'r angen am ymarfer cyfyngol drwy ddatblygu strategaethau i leihau.

Y modiwlau a fyddai'n cael eu cynnwys yng Nghymorth Ymddygiad Cadarnhaol yw:

- Asesu Risgiau Ymddygiadol
- Casglu Data Ymddygiad/Dadansoddiad Gweithredol
- Cynllunio PSB
- Datblygu sgiliau sy'n cyfateb i swyddogaethau
- Monitro a datblygu pellach
- Technegau gwyro (tawelu meddwl ac ailgyfeirio)

Mae cymorth ymddygiad cadarnhaol effeithiol yn dibynnu ar ddiffiniad clir o beth yw ymddygiad heriol. Y diffiniad mwyaf cyffredin o "ymddygiad heriol", sef term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn y gwasanaethau addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw:

“...behaviour of such an intensity, frequency or duration that the physical safety of the person or others is likely to be placed in jeopardy, or behaviour which is likely to seriously limit or deny access to and use of ordinary community facilities”.

(Emerson, 1995 t.44)

Dylai pob aelod o staff fabwysiadu dull cadarnhaol o wella ymddygiad er mwyn gwobrwyo ymdrech a chymhwyso a meithrin hunanhyder. Mae'r nodyn canlynol, er yn berthnasol i bob ysgol, yn fwy perthnasol wrth ddelio â disgyblion ag AAY, mewn ysgol arbennig, lle gall anawsterau cyfathrebu arwain at ymddygiad heriol. Dylai'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n adnabod y plentyn i helpu'r rhai dan sylw i:

- ganfod pam bod y plentyn hwn yn ymddwyn fel hyn;
- deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad y plentyn hwn; a
- chanfod arwyddion rhybuddio cynnar sy'n nodi bod ymddygiad rhagweladwy yn datblygu.

Dylai'r term 'ymddygiad heriol' gael ei gadw ar gyfer ymddygiad sy'n beryglus neu'n ymyrryd yn sylweddol ar ffordd o fyw disgyblion. Mae ymddygiad heriol yn fwy cyffredin pan fo yna anawsterau cyfathrebu. Yn aml, mae'n cyflawni fwy nag un swyddogaeth (hynny yw, dianc, ennill pethau diriaethol, cael sylw neu adborth synhwyraidd), gan helpu'r disgybl i reoli rhai agweddau o'i amgylchedd yn fwy llwyddiannus.

Gellir defnyddio modelau i ddeall ymddygiad heriol i asesu (hynny yw dadansoddiad ymarferol) ac i gynllunio rhaglenni ymyrraeth/ymyriad effeithiol a chadarnhaol i leihau amllder a hyd ymddygiad sy'n peri problem. Mae ymyrraethau/ymyriadau'n fwy effeithiol os ydynt wedi eu seilio ar asesiad a swyddogaeth yr ymddygiad, a chychwyn newidiadau effeithiol i'r gefnogaeth a roddir oddi fewn i amgylchedd agos y plentyn.

Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau mai ymyrraeth gynnar ac ataliol yw'r norm a dylai leihau'r achosion o ymddygiad eithriadol.

Dylai staff ysgol gyfeirio at bolisi ymddygiad ysgol wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ymddygiad. Dylid cytuno a chadarnhau pob cynllun rheoli ymddygiad yn ffurfiol cyn eu gweithredu yn yr ysgol. Dylai cynlluniau gael eu cofnodi'n ffurfiol yn unol â gweithdrefnau ysgol gan nodi'r camau a gymerwyd i:

- ddiwallu anghenion disgyblion;
- annog y disgybl i wneud dewisiadau cadarnhaol a datblygu hunanreolaeth;
- cefnogi'r disgybl mewn sefyllfaoedd anodd; a
- rheoli argyfwng yn ddiogel os bydd yn digwydd.

Cosbau

Dylai'r defnydd o gosbau a gwobrau gael eu hamlinellu ym mholisi ymddygiad ysgol a dylai fod yn glir i staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion. Os bydd ffurf o "amser allan" yn cael ei benderfynu fel cosb briodol, yna dylai'r dull fod yn rhan o raglen therapiwtig i reoli ymddygiad heriol ac nid ei drin fel dull ad hoc.

Pan ddefnyddir ffurf ar “amser allan”, dylai’r unigolyn â’r ymddygiad heriol gael ei gymryd i ffwrdd o lle neu weithgaredd yr ystyrir sy’n rhoi boddhad iddynt pan na ellir rheoli eu hymddygiad. Gellir tynnu’r person allan o’r ystafell neu ychydig gamau i ffwrdd o lle gwneir y gweithgaredd.

Caiff amser allan ei ddiffinio ym mharagraff 19.9 Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl fel hyn:

“A behaviour modification technique which denies a patient for a period of time (lasting for a few seconds to no more than fifteen minutes) opportunities to participate in an activity or to obtain positive reinforcers following (normally immediately) an incident of an unacceptable or unwanted behaviour, and which then returns the patient to his/her original environment.
Time out should never include the use of a locked room.”

Er y dilema moesegol o ddefnyddio cosb fel canlyniad, os yw’r gosb honno’n cynnwys defnyddio grym, yna mae’n gosb anghyfreithlon. Mae hyn oherwydd y byddai wedi ei gynnwys oddi fewn i’r diffiniad o gosb corfforol, a gafodd ei wahardd gan Adran 548 Deddf Addysg 1996.

Mae’r arfer o ddefnyddio cosb ar gyfer disgybl sydd yn y bôn yn ceisio cyfathrebu neges neu gael mynediad at atgyfnerthiadau cyfreithlon er enghraifft dianc rhag sefyllfa neu gael rhyngweithiad gan staff, yn foesegol annichonadwy. Dylid cymhwyso dulliau gweithredu nad ydynt yn risg i addysgu/datblygu dull mwy addasol neu briodol o gyflawni’r un atgyfnerthiadau. Os bydd staff yn deall swyddogaeth yr ymddygiad (pa mor ddifrifol bynnag yw’r broblem) bydd yn fwy effeithiol i’r staff weithredu strategaethau i helpu’r disgybl i reoli ei hunan neu newid ei ymddygiad ei hun.

Oherwydd anawsterau dealltwriaeth sy’n gysylltiedig ag unigolion sydd ag awtistiaeth ac anawsterau cyfathrebu, nid yw cosb yn foesegol ddichonadwy, yn gyffredinol. Dylai pob disgybl sydd ag ymddygiad sy’n effeithio ar ei allu i ymgysylltu â gwaith gael dadansoddiad swyddogaethol llawn wedi ei gyflawni amdano. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at Gynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yr unigolyn gan amlinellu’r ymyriadau gan gynnwys rhaglennu cadarnhaol, datblygu systemau cyfathrebu amgen, addasu’r amgylchedd i gefnogi’r disgybl a’r gweithdrefnau eraill mewn lle nad ydynt yn wrthwynebus.

Ymarferion Cyfyngol

“Gall y term, cyfyngu gyfeirio at nifer o wahanol bethau (er enghraifft cyfyngu corfforol, cemegol, peirianwaith, arwahanrwydd, cyfyngu cymdeithasol, seicolegol ac arwahanrwydd hirdymor. Nid yw cyfyngu, o reidrwydd yn golygu’r defnydd o rym. Gall hefyd gynnwys ymyrraeth, er enghraifft, symud ffrâm gerdded allan o’r ffordd.

Mae’n rhaid i bob gweithred gyfyngol fod yn gyfreithlon, yn gymesur gan ddefnyddio’r opsiwn lleiaf cyfyngol posib.

Y ffordd orau i osgoi’r angen i ddefnyddio ymarferion cyfyngol, gan gynnwys ataliaeth yw i weithio mewn modd ataliol a chwrdd ag angen cyn argyfwng. Fodd bynnag, mewn rhai

achosion prin nid oes modd osgoi hyn. Nid yw byth yn gyfreithiol i ddefnyddio ataliaeth er mwyn gwneud hwyl, diraddio na chosbi neb.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir mai ffocws y polisi a'r ymarfer yw lleihau ymarferion cyfyngol fel rhan o gynllunio sy'n gosod yr unigolyn yn ganolog." Dogfen ymgynghorol: Fframwaith Lleihau Ymarferion Cyfyngol

Dylai uwch arweinwyr mewn sefydliad arddangos eu hymroddiad i leihau ymarferion cyfyngol drwy weithredu cynlluniau lleihau ymarferion cyfyngol ac adolygu deilliannau'n gyson.

Ymyraethau corfforol

"Dylid defnyddio grym fel modd o amddiffyn a byth fel cosb ddisgyblu". (Deddf Addysg 1996 Adran 548).

Mae gan bob aelod o staff ysgol bŵer cyfreithiol i ymyrryd er mwyn atal disgyblion rhag cyflawni trosedd, anafu eu hunain neu bobl eraill neu niweidio eiddo; a chynnal trefn dda a disgyblaeth ymysg disgyblion.

Dylid canolbwyntio ar atal, cyn belled â phosibl, yr angen i ddefnyddio ymyriad corfforol, drwy greu hinsawdd ysgol digyffro, trefnus a chefnogol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Ymyriad corfforol yw dim ond un agwedd ar y strategaethau sydd ar gael i staff wrth reoli ymddygiad heriol a dylid ond ei ddefnyddio fel y dewis olaf. Dylid annog staff i sicrhau bod disgyblion sy'n cyflwyno ymddygiad heriol yn cael cyfleoedd i ymddwyn yn effeithiol drwy:

- Raglenni rheoli ymddygiad cadarnhaol
- Strategaethau datrys gwrthdaro
- Strategaethau tawelu

Mae'n bwysig iawn bod pob cam ataliol wedi'i gymryd i negyddu'r angen i ddefnyddio ymyriad corfforol. Fodd bynnag, efallai nad yw hynny bob amser yn bwysig ac, mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i staff fod yn ymwybodol o sensitifrwydd yn gysylltiedig ag unrhyw ffurf ar gysylltiad corfforol gyda disgyblion.

Ni ddylai ysgolion geisio atal gallu staff i ddefnyddio ymyriad corfforol drwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r gallu i ddefnyddio ymyraethau corfforol yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion a'r ysgol. Y risg gyda pholisi dim cyswllt yw gallai olygu bod aelod o staff yn torri eu dyletswydd o ofalu am ddisgybl neu eu hatal rhag gweithredu er mwyn atal disgybl i achosi anaf i ddisgyblion eraill.

Mae Canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru "Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol" yn diffinio Ymyriad Corfforol Cyfyngol fel hyn:

“Cyswllt corfforol uniongyrchol rhwng personau ble caiff grym rhesymol ei gymhwyso yn erbyn ymwrthiant, un ai i gyfyngu symudiad neu symudedd neu i ddatgysylltu rhag ymddygiad niweidiol a ddangosir gan unigolyn”.

Mae’r canllaw yn awgrymu fod sefydliadau’n arddangos canolbwyntio triphlyg fel a ganlyn:

- Atal yr anghenraid ar gyfer ymyriad corfforol cyfyngol drwy ddatblygu strategaethau ataliol;
- Gweithio gyda’r unigolyn tuag at leihau lefel yr ymateb gofynnol ble y caiff ei ddynodi fod angen ymyriad corfforol cyfyngol fel rhan o broses darparu cynllunio a gwasanaeth unigol;
- Ble y caiff sefyllfaoedd sy’n gofyn am ymyriad corfforol cyfyngol eu dynodi fel rhai na ellir eu hosgoi, gan sicrhau fod yna gynllunio a hyfforddiant blaenorol i gyflawni deilliannau mwy diogel i bawb sy’n gynwysedig.

Ble y bo’n bosibl, bydd defnyddio Ymyriad corfforol cyfyngol bob amser yn rhan o ddull gweithredu aml-elfennol a gynlluniwyd. Caiff ei dderbyn y gellir cael amgylchiadau na ellir eu rhagweld yn rhesymol na chynllunio ar eu cyfer, a bod y sefyllfaoedd hynny’n dibynnu ar staff sy’n defnyddio’u barn broffesiynol ac yn gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â sgiliau asesu risg dynamig i sicrhau mai unrhyw ymyrraeth yw’r lleiaf cyfyngol a’i fod yn cael ei gynnal am yr amser byrraf posibl i gyrraedd y deiliant a ddymunir.

Ni ddylai Ymyriad corfforol cyfyngol fyth gael ei ddefnyddio fel cosb, dim ond fel modd o gadw unigolion yn ddiogel.

Mae’r canllaw “Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau.” yn awgrymu’r farn ganlynol y dylid ei hystyried wrth wneud y penderfyniad i ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol sef:

- *Difrifoldeb y digwyddiad, a gaiff ei asesu gan effaith yr anaf, difrod neu anhrefn, sy’n debygol o ddigwydd os na chaff grym ei ddefnyddio. Po fwyaf y potensial o anaf, difrod neu anrhefn difrifol, y mwyaf tebygol ydyw y gellir cyfiawnhau defnyddio grym;*
- *Y tebygolrwydd o gyflawni’r canlyniad a ddymunir drwy ffyrdd eraill. Po isaf y tebygolrwydd o gyflawni’r canlyniad a ddymunir drwy ffyrdd eraill, y mwyaf tebygol ydyw y gellir cyfiawnhau defnyddio grym; ac,*
- *Y risgiau perthynol sy’n gysylltiedig ag ymyriad corfforol o’i gymharu â defnyddio strategaethau eraill. Po leiaf y risgiau cysylltiedig ag ymyriad corfforol o’u cymharu â strategaethau eraill, y mwyaf tebygol ydyw y gellir cyfiawnhau defnyddio grym.*

Gweler **Atodiad A** am ragor o fanylion ac enghreifftiau o bryd y dylid defnyddio ymyriad corfforol neu beidio.

Staff a awdurdodir i ddefnyddio ymyriad corfforol

Ym mholisi'r ysgol, mae angen i'r pennaeth sicrhau ei fod yn nodi pa staff, os nad pob aelod o staff, sydd ag awdurdod i ddefnyddio ymyriad corfforol wrth ddelio â digwyddiadau.

Dylid ond defnyddio ymyraethau corfforol ar ôl rhoi cynnig ar bob dull tawelu arall neu os bydd risg gwirioneddol uniongyrchol i'r disgybl neu bobl eraill.

Dyma rhai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellir defnyddio ymyriad corfforol:

- atal disgybl rhag ymosod ar aelod o saff, neu ddisgybl arall, neu atal ymladd rhwng dau ddisgybl neu fwy;
- atal disgybl rhag achosi difrod difrifol a bwriadol i eiddo;
- atal disgybl rhag achosi anaf neu ddifrod drwy ddamwain, drwy chwarae'n gas neu drwy gamddefnyddio deunyddiau neu wrthrychau peryglus;
- sicrhau bod disgybl yn gadael ystafell ddosbarth pan fydd y disgybl yn gwrthod yn barhaol i ddilyn cyfarwydd i wneud hynny;
- atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar wers; neu
- atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar ddigwyddiad chwaraeon ysgol neu ymweliad ysgol.

Yn yr enghreifftiau hyn, byddai defnyddio ymyriad corfforol yn rhesymol, ac felly'n gyfreithiol, os oedd yn glir bod yr ymddygiad yn ddigon peryglus neu aflonyddgar i ganiatáu ymyriad corfforol o'r graddau a ddefnyddiwyd ac ni ellir delio'n realistig â hynny mewn unrhyw ffordd arall. Prif nod ymyriad corfforol fel arfer yw cynnal neu adfer diogelwch. Cydnabyddir bod adegau pan ellir cyfiawnhau ymyriad corfforol ataliol fel ymateb rhesymol a chymesur i atal difrod i eiddo neu er mwyn cael trefn a disgyblaeth dda mewn ysgolion.

Lleihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen ymyriad corfforol

Mae nifer o gamau y gall ysgolion eu cymryd i helpu i leihau'r tebygrwydd o sefyllfaoedd yn codi lle gallai fod angen defnyddio ymyriad corfforol:

- creu hinsawdd ysgol digyffro, trefnus a chefnogol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath;
- datblygu perthnasau effeithiol rhwng disgyblion a staff sy'n ganolog i drefn da;
- mabwysiadu dull ysgol gyfan i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol fel y rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL);
- cymryd dull strwythuredig i ddatblygiad staff sy'n helpu staff i ddatblygu'r sgil o reoli ymddygiad cadarnhaol; rheoli gwrthdaro ac sydd hefyd yn cefnogi ei gilydd yn ystod ac ar ôl digwyddiad. Darperir rhagor o ganllawiau yng Nghynllaw Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr 47/2016;

- rheoli digwyddiadau unigol yn effeithiol. Mae'n bwysig cyfathrebu'n ddigyffro gyda'r disgybl, gan ddefnyddio iaith lafar ac arall nad yw'n fygythiol a sicrhau y gall disgybl weld ffordd allan o sefyllfa. Gallai strategaethau gynnwys, er enghraifft, mynd gydag aelod o staff i ystafell dawel, i ffwrdd o bobl sy'n edrych neu ddisgyblion eraill, fel y gall yr aelod o staff wrando ar bryderon; neu ymuno ag aelod penodol o staff y mae'r disgybl yn ei adnabod yn dda; gellir gweld strategaethau eraill yn y pecyn Tasg a Dysgu; a
- lle bynnag y bo'n ymarferol, rhybuddio disgybl y gellid defnyddio grym cyn ei ddefnyddio.

Caiff ei gydnabod y gellir cael achlysuron pan fydd rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r gofynion yn eu bywydau. Ar yr adegau hynny gall ymyriad fod yn angenrheidiol. Mae angen i'r ymatebion hyn neu'r strategaethau ymyriad fod yn gynyddol, gan gynyddu mewn lefel a natur sy'n gymesur â lefel a natur yr ymddygiad.

Mae angen i'r risgiau sy'n berthnasol i'r ymddygiad gael eu hystyried wrth gynllunio a rhagnodi'r ymateb. Dylai'r risgiau a'r mesurau rheoli angenrheidiol hyn gael eu hamlinellu oddi fewn i asesiad risg ymddygiad yr unigolyn. Bydd natur gynyddol yr ymyriadau hyn yn caniatáu'r staff i gael amrywiaeth o ymatebion a fydd yn eu tro yn galluogi'r ymateb i gael ei unigolyddu i'r disgybl a'r sefyllfa.

Mae enghreifftiau o ymatebion cynyddol yn cynnwys, ar y lefel mwyaf sylfaenol, y fath o ymatebion sydd ar gael yn y rhan fwyaf o ysgolion fel canmoliaeth lafar, teilyngdod dosbarth, teilyngdod wythnosol, sylwadau ysgrifenedig yn y cartref/llyfrau ysgol. Ceir hefyd sancsiynau y gellir eu cyflawni fel cerydd ar lafar, newid seddau, tynnu allan o weithgaredd penodol, cyfeirio at aelod o'r uwch dîm rheoli, gwahardd am gyfnod penodol neu'n barhaol.

Bydd y dulliau gweithredu hyn yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, pan nad ydyn nhw'n effeithiol, fe allai fod yn angenrheidiol archwilio'r rhesymau a'r achosion o'r ymddygiad ymhellach. Gallai hyn gynnwys dadansoddiad swyddogaethol i sicrhau dealltwriaeth o'r holl resymau ar gyfer defnyddio ymddygiad penodol fel bod ymateb effeithiol yn gallu cael ei ddatblygu. Fel arfer bydd yr ymatebion hyn yn gynwysedig mewn tri maes allweddol a gaiff eu hamlinellu oddi fewn i'r Cynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol gan syrthio'n fras i'r tri maes canlynol:

- Ataliad sylfaenol
- Ataliad eilaidd
- Strategaethau adweithiol

Gweler **Atodiad B** am fanylion pellach am yr ymatebion hyn.

Penderfynu a ddylid defnyddio ymyriad corfforol

Cyn defnyddio ymyriad corfforol, dylai staff ystyried a yw ymyriad corfforol yn risg a dylid ond ei ddefnyddio os ydynt yn teimlo y byddai'n gwella'r sefyllfa. Dylent hefyd, lle bynnag y bo'n ymarferol, ddweud wrth y disgybl i roi'r gorau i gamymddwyn a chyfathrebu mewn dull digynnwrf a heddychlon drwy gydol y digwyddiad. Ni ddylai staff weithredu mewn dicter neu rwystredigaeth, neu er mwyn cosbi disgybl, a dylid fod yn glir y bydd y cyswllt corfforol neu ataliaeth yn gorffen cyn gynted ag na fydd ei angen mwyach. Dylai unrhyw ddefnydd o ymyriad corfforol fod yn gyson â'r egwyddor o rym rhesymol. Mae hyn yn golygu bod angen iddo fod mewn cyfannedd i'r risgiau y sefyllfa ac y defnyddir cyn lleied o rym â phosibl am y cyfnod lleiaf posibl er mwyn adfer diogelwch.

Cyn y gellir defnyddio cyswllt corfforol dylid gwneud pob ymdrech i osgoi hynny er mwyn rheoli'r ymddygiad heriol. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau llafar a rhybudd o fwriad i ymyrryd yn gorfforol. Cynghorir i ofyn am gymorth ychwanegol cyn ymyrryd. Gallai cymorth o'r fath olygu cael goruchwylwr, neu rywun i fod yn barod i roi cymorth corfforol ychwanegol os bydd angen. Ni ddylai aelod heb ei awdurdodi o staff ymyrryd mewn digwyddiad heb gymorth, oni bai ei fod yn argyfwng. Dylai ysgolion gael systemau cyfathrebu sy'n galluogi aelod o staff i ofyn am gymorth brys pan fo angen. Gallai fod angen helpu i ddelio â sefyllfa yn cynnwys disgybl hŷn neu'n gryf yn gorfforol, disgybl mwy o ran corff, mwy nag un disgybl, neu os yw aelod awdurdodedig o staff yn credu ei fod mewn perygl o gael ei anafu. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai gymryd camau i symud disgyblion eraill a allai fod mewn perygl a gofyn am gymorth gan aelod awdurdodedig arall o staff neu, pan fo angen, ffonio'r heddlu.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ofod personol a'r ffordd y gall risgiau corfforol gynyddu pan fydd aelod o staff yn mynd i mewn i ofod personol plentyn neu berson ifanc gofidus neu flin.

Gallai'r mathau o ymyriad corfforol a ddefnyddir gynnwys:

- cyswllt corfforol goddefol yn sgil sefyll rhwng disgyblion neu rwystro llwybr disgybl;
- cyswllt corfforol gweithredol megis: arwain disgybl gerfydd ei law neu fraich; hebrwng disgybl i ffwrdd drwy osod llaw ar gefn yr ysgwydd; mewn amgylchiadau mwy eithriadol, defnyddio gafael ataliol priodol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn **Atodiad A**.

Pan fo risg uchel a brys o farwolaeth neu anaf difrifol, gellir cyfiawnhau i unrhyw aelod o staff gymryd unrhyw gamau angenrheidiol (sy'n gyson â'r egwyddor o geisio defnyddio'r grym lleiaf posibl er mwyn cael y canlyniad a ddymunir). Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys atal disgybl rhag rhedeg oddi ar y palmant i ffordd brysur neu atal disgybl rhag taro rhywun â gwrthrych peryglus fel potel wydr neu forthwyl.

Dylai staff wneud pob ymdrech i osgoi gweithredu mewn ffordd y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol i achosi anaf. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol nid yw bob amser yn bosibl osgoi anafu disgybl.

Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau

Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i ddisgyblion ag AAA a/neu anableddau:

- Cynnwys y cydlynnydd AAA neu aelod arall penodol o staff a rhieni wrth ddatblygu polisi ac arfer yr ysgol ar ddefnyddio grym. Bydd hyn yn sicrhau yr ystyrir anghenion disgyblion unigol ag AAA a/neu anabledau yn briodol gan gynnwys disgyblion “bregus”.
- Datblygu cynlluniau rheoli ymddygiad i ddisgyblion unigol a asesir fel eu bod mewn perygl mawr o fod angen ymyraethau corfforol ataliol gan ymgynghori â’r disgybl a’i rieni neu ofalwyr. Darperir cyngor pellach ar asesiadau risg yn y **Pecyn Cymorth Cynllunio Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn Atodiad Ch.** Mae cynlluniau rheoli yn nodi’r technegau y dylid eu defnyddio a’r rhai na ddylid eu defnyddio fel arfer. I ddisgyblion sydd â datganiad/Cynllun Datblygu Unigol (CDU) dylai unrhyw ddefnydd posibl o ymyriad corfforol fod yn gydnaws â datganiad y disgybl a chofnodion yr ysgol.
- Cyhyd ag sy’n ymarferol bosibl, dylid sicrhau bod staff sy’n dod mewn cysylltiad â disgyblion o’r fath yn ymwybodol o rinweddau perthnasol yr unigolion hynny, yn arbennig:
 - sefyllfaoedd a allai gythruddo ymddygiad anodd, strategaethau ataliol a pha dechnegau tawelu sy’n fwyaf tebygol o weithio;
 - beth sydd fwyaf tebygol o ysgogi ymateb treisgar, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad blaenorol lle roedd angen ymyriad corfforol; ac
 - os yw’n debygol bod angen ymyriad corfforol, unrhyw strategaethau a thechnegau penodol y cytunwyd arnynt gan staff, rhieni a’r disgybl dan sylw.
- Gallai gwybodaeth gan rieni fod mor werthfawr â gwybodaeth sydd gan yr ysgol. Gallai peth o’r wybodaeth hon fod yn sensitif. Dylai ysgolion ofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan y rhiant i hysbysu staff priodol. Fodd bynnag, pan na roddir caniatâd, a hynny’n afresymol, efallai bod angen sicrhau bod y wybodaeth ar gael i staff sydd ei angen o hyd os yw hynny o’r budd gorau i’r disgybl dan sylw. Bydd y pwysigrwydd o ddarparu gwybodaeth o’r fath yn ffactor wrth benderfynu ynghylch rhoi awdurdod dros dro i wirfoddolwyr sy’n rhieni ac eraill i oruchwylio’r disgyblion.
- Neilltuo aelod o staff i’w alw os bydd digwyddiadau yn gysylltiedig â disgyblion penodol yn digwydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu aros iddyn nhw gyrraedd cyn gweithredu os oes angen gweithredu ar frys. Fodd bynnag, dylid eu cynnwys bob amser ar ôl digwyddiad. Dylid hefyd ystyried a oes amgylchiadau penodol lle mae angen i staff weithio mewn parau i ddiogelu disgyblion a/neu staff.
- Addysg disgyblion pwy sydd mewn perygl, sut i gyfathrebu mewn cyfnodau o argyfwng a pha strategaethau i’w defnyddio mewn argyfwng (fel defnyddio pasbort cyfathrebu personol ac arwyddion nad ydynt yn rhai llafar i ddangos bod angen defnyddio ardal dawel benodol neu lle i dawelu) a sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â’r strategaethau hyn.

Hyfforddiant staff

Fel ffurfiau eraill ar ddatblygu proffesiynol, mae'n well i ysgolion unigolion wneud penderfyniadau ynghylch hyfforddiant mewn ymyriad corfforol yn seiliedig ar eu hanghenion ac amgylchiadau penodol. Mae'n arfer da i ysgolion nodi eu dull hyfforddiant perthnasol yn eu polisi ysgol ar y defnydd o ymyriad corfforol. Gallai ysgol benderfynu y dylai pob aelod o staff sy'n goruchwyllo disgyblion gael hyfforddiant o'r fath. Mae gan unigolion bŵer statudol i ymyrryd yn gorfforol yn rhinwedd eu swydd. Felly, ni all polisi ysgol atal athrawon neu rai sy'n gyfrifol am ddisgyblion rhag defnyddio'r pŵer hwnnw os ydynt wedi cael hyfforddiant ai peidio. Fodd bynnag, dylai ysgolion ei gwneud yn glir i staff y gallai defnydd afresymol neu amhriodol o ymyriad corfforol arwain at gamau disgyblu. Dylai staff bob amser weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol nad yw'n annog yr angen am drais. Dylai ysgolion hefyd fod yn ystyriol pan fydd asesiad risg yn awgrymu bod ymddygiad disgybl unigol yn debygol o fod ei reoli'n gorfforol, y dylai ysgolion sicrhau bod y staff a nodwyd wedi cael hyfforddiant priodol. Cynghorir ysgolion i sicrhau bod hyfforddiant yn cwmpasu technegau ar gyfer osgoi neu dawelu sefyllfaoedd lle gallai fod angen ymyriad corfforol yn ogystal â dulliau o ymyriad corfforol.

Cofnodi ac Adrodd Digwyddiadau

Cynghorir ysgolion yn gryf i gadw cofnodion systematig o bob digwyddiad lle defnyddiwyd ymyriad corfforol, yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r ysgol ar y defnydd o rym a'i gofynion amddiffyn plant Pwrpas cofnodi yw sicrhau y dilynir canllawiau polisi, i roi gwybod i rieni, i lywio gwaith o gynllunio yn y dyfodol fel rhan o brosesau gwella ysgolion, i atal camddealltwriaeth neu gamddehongli'r digwyddiad ac i ddarparu cofnod ar gyfer unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol. Mae'n cael ei argymhell y dylai pob data gael ei adolygu a'i ddadansoddi gan yr ysgol er mwy adlewyrchu ymarferion cyfredol a mabwysiadu dull o weithio sy'n gosod yr unigolyn yn ganolog. Bydd angen anfon copi o'r ffurflen ddigwyddiad at yr Awdurdod Lleol drwy'r cyfeiriad e-bost sarah.bowen@merthyr.gov.uk neu EducationWelfare@merthyr.gov.uk. Os nad oes digwyddiadau i'w adrodd, yna rhaid nodi hynny hefyd. Bydd yr ALL yna'n defnyddio'r data er mwyh hysbysu hyfforddiant PBS ac ymarferion.

Gallai fod yn defnyddiol i staff ofyn am gyngor uwch aelod o staff neu gynrychiolydd yn eu cymdeithas broffesiynol wrth lunio adroddiad.

Mae ffurflenni Cofnodi Digwyddiad enghreifftiol i'w gweld yn **Atodiad B** gan y bydd agen cofnodi pob digwyddiad yn systematig. Mae'r ffurflenni hyn yn nodi'r math o wybodaeth y dylid ei chofnodi. Yr aelod o staff oedd ynghlwm â'r digwyddiad yw'r person gorau fel arfer i lunio'r cofnod. Byddai'n arfer da i'r aelod o staff â'r cyfrifoldeb pennaf dros amddiffyn i edrych dros y cofnod ac i'r ysgol ddarparu copi o'r fersiwn derfynol i'r aelod o staff oedd ynghlwm â'r digwyddiad. Gallai hyfforddiant staff fel arfer gynnwys arfer dar ar gwblhau cofnodion digwyddiadau.

Pan gaiff digwyddiad ei adrodd neu ei ddarganfod, dylai ysgolion ddilyn eu gweithdrefnau mewnol. Dylai'r broses gynnwys y camau canlynol.

Digwyddiad Honedig



Ymchwiliad



Cefnogi Digwyddiad



Gweithredu a hysbysu partïon perthnasol



Camau Dilynol



Adrodd bob Tymor i ALI



Dylid cofnodi adroddiadau gwahanol ar gyfer yr un digwyddiad. Ni chynghorir bob amser fel mater o drefn i roi copi o gofnod y digwyddiad i rieni, ond dylid rhoi gwybod i rieni pryd a ble y digwyddodd y digwyddiad, pa aelodau o staff oedd ynghlwm yn uniongyrchol (di-enw os bydd angen), pam eu bod wedi penderfynu bod rhaid defnyddio grym, pa rym gafodd ei ddefnyddio, p'un a oedd unrhyw anafiadau a pha gamau dilynol (cymorth a/neu ddisgyblaeth) a gymerwyd mewn cysylltiad â'u plentyn. Cynghorir fod polisi ysgol ar wneud cofnod yn dilyn digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnwys o fewn ei pholisi ar ddefnyddio grym a thynnu sylw at aelodau o staff, rhieni a disgyblion, os na chaiff y personau hyn eu hysbysu o'r polisi fel arall.

Dylai'r cofnod ffurfio rhan o **gofnod addysgol y disgybl** gan ei fod yn gofnod gwybodaeth sydd wedi'i chael gan neu ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol. Os na chaiff copi o gofnod y digwyddiad ei ddarparu gan yr ysgol, byddai hawl gan y rhiant i weld y cofnod addysgol am ddim, o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn cais ysgrifenedig y rhiant. Os bydd rhiant yn gwneud cais ysgrifenedig am gopi o'r cofnod, rhaid iddo gael ei ddarparu o fewn 15 diwrnod i dderbyn y cais.

Ar ôl unrhyw ddigwyddiad wedi'i gofnodi, dylai rhieni gael eu hysbysu bob amser. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n well ffonio rhieni cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad cyn cadarnhau'r manylion yn ysgrifenedig. Mae hefyd yn arfer da i roi copi o bolisi'r ysgol ar ddefnyddio grym a gwybodaeth am gymorth ar ôl yr achos i rieni.

Mae'n arfer da i lywodraethwyr fonitro digwyddiadau lle defnyddiwyd grym. Mae gan benaethiaid rôl bwysig i'w chwarae o ran adrodd digwyddiadau o'r fath i'r Corff Llywodraethu ynghyd â'r rhai mewn cysylltiad ag ymddygiad a digwyddiadau sydd wedi arwain at waharddiad.

Mae gelyniaeth ac ymddygiad ymosodol tuag at staff yn annerbyniol ac felly gallai aelodau o staff yr ymosodwyd arnynt ystyried rhoi gwybod am hyn i'r heddlu.

Asesu risg a chynllunio ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol ataliol

Dylai ysgolion gydnabod bod rhai plant yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i ystyried defnyddio ymyriad corfforol ataliol fel rhan o Gynllun Ymddwyn Unigol (IBP,) Cynllun Cymorth Cyflym (CCC) neu, mewn rhai achosion, Pecyn Cymorth Cynllunio Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, (**Atodiad Ch**). Dylai pob ymddygiad a nodir sy'n golygu bod angen ymyriad corfforol gael asesiad risg ffurfiol (Atodiad D). Mae'r strategaeth rheoli risg canlyniadol yn gydnaws â dull rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r Matrics Asesu Rheoli Risg Ymddygiad wedi'i gynllunio i helpu athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu ac oedolion eraill sy'n gweithio mewn ysgolion i wella arfer mewn cysylltiad ag asesu a rheoli risg gan ddisgyblion ag ymddygiad heriol difrifol. Gallai'r risg fod i ddisgyblion eu hunain, disgyblion eraill, athrawon, oedolion eraill neu eiddo

Dylid cysylltu â rhieni i adolygu IBP eu plentyn yn dilyn pob digwyddiad. Dylai rhieni fod yn ymwybodol o bolisi ymddygiad cadarnhaol ysgolion ar fynediad ac ym mhob adolygiad disgyblu.

Beth yw ystyr “risg” ac “asesu risg”?

Mae’r term “risg” yn cyfeirio at unrhyw amgylchiadau a allai arwain at ganlyniad andwyol i’r plentyn neu bobl eraill. Gallai risg ddeillio mewn cysylltiad â nifer o ffactorau, fel trefniadau gofal iechyd a chymorth cymdeithasol ar gyfer y plentyn; rhyngweithio rhwng y plentyn a’i amgylchedd; effaith uniongyrchol ymddygiad a gyflwynir gan y plentyn; mesurau ac ymyraethau a ddefnyddir i leihau, cyfyngu neu reoli’r risgiau a gyflwynir i’r plentyn ac eraill. Mae asesu a rheoli risg yn broses sy’n helpu staff ac eraill i ystyried materion risg, i weithredu’n rhesymol, ac i ddysgu o’r hyn sy’n digwydd mewn arfer pob dydd.

Cymorth ar ôl digwyddiadau

Gall digwyddiadau difrifol lle mae angen ymyriad corfforol fod yn anodd i bawb dan sylw a gallai arwain at anafiadau i’r disgybl neu staff. Dylid cymryd camau uniongyrchol i ddarparu cymorth cyntaf ar gyfer pob anaf ac i gael cymorth meddygol ar gyfer unrhyw anafiadau sydd y tu hwnt i gymorth cyntaf. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod staff a disgyblion yn cael cymorth emosiynol. Gall yr All drefnu cymorth proffesiynol i ddisgyblion a staff lle bo angen.

Gall y llythyr at rieni yn eu hysbysu am y defnydd o ymyriad corfforol gael ei ddefnyddio i ymgysylltu â nhw i drafod y digwyddiad ac i nodi camau gweithredu dilynol a chymorth. Mae’n arfer da i rieni gymryd rhan wrth gytuno trefniadau cymorth priodol. Dylai staff ysgol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth yn dilyn argyfwng drwy:

- Sicrwydd
- Egluro
- Gwranddo
- Caniatáu amser i ffwrdd
- Defnyddio’r Rhaglen Cymorth Myfyrwyr (SAP)
- Addysg Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL)
- Cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid neu asiantaethau eraill i gynnig cymorth

I rieni pob disgybl, ond yn arbennig y rhai y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig ag AAA a/neu anableddau, cynghorir i gytuno ar IBP. Byddai cynlluniau o’r fath yn cynnwys strategaethau i atal a delio ag unrhyw ddigwyddiadau sy’n ailadrodd o ymddygiad a allai arwain at ddefnyddio ymyriad corfforol.

Cynghorir ysgolion hefyd i:

- ystyried a yw anghenion y plentyn yn golygu y gallai fod angen cynnwys gwasanaethau eraill neu asiantaethau partner. Gallai hyn gynnwys aelod o Dîm Cymorth Ymddygiad, cyfeirio at yr MIA neu Wasanaeth Cymorth Ieuencid ac ati;
- lle mae disgybl yn gyfrifol, dal y disgybl i gyfrif fel ei fod yn cydnabod y difrod a achoswyd neu yr hyn a allai fod wedi’i achosi. Yn ogystal â chosbi’r disgybl, gallai hyn

gynnwys rhoi cyfle iddynt adfer y perthnasau â staff a disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad a/neu ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol;

- helpu'r disgybl a'r staff i ddatblygu strategaethau i osgoi argyfyngau o'r fath yn y dyfodol a rhoi gwybod i staff perthnasol am y strategaethau hyn a'u rolau;
- sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol o weithdrefnau cwynion yr ysgol; a
- sicrhau bod staff a disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan ddigwyddiad yn cael cymorth parhaus am mor hired â phosibl mewn cysylltiad â:
 - i. canlyniadau corfforol;
 - ii. cymorth i ddelio ag unrhyw straen emosiynol neu golli hyder;
 - iii. cyfle i ddadansoddi, myfyrio a dysgu o'r digwyddiad.

Cwynion a honiadau

Mae gan rieni a disgyblion hawl i gwyno am gamau a gymerwyd gan staff ysgol a gallai hynny gynnwys defnyddio ymyriad corfforol ac mae angen i ysgolion wneud hynny'n glir. Os gwneir honiad penodol o gam-drin yn erbyn aelod o staff yna mae'n rhaid i'r ysgol ddilyn y canllaw yn Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013 – 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff mewn Ysgolion' a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014 "Amddiffyn Plant mewn Addysg: Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Athrawon a Staff Eraill". Trafodir hyn hefyd ym "Mhrotocol a Chanllawiau Ymarfer Aml-asiantaeth" lle amlinellir trefniadau lleol ar gyfer ymateb i bryderon Amddiffyn Plant yn ymwneud â'r rhai y mae eu gwaith yn dod â nhw mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau penodol i'w dilyn a thempled i'w gwblhau o ran sefydlu cynllun rheoli risg. Dylid delio â chwynion eraill o dan weithdrefn cwynion yr ysgol y dylai fod wedi'i nodi ym mhrosbectws neu wefan yr ysgol. Y person cyswllt cyntaf ar gyfer digwyddiadau o'r fath fyddai Swyddog Penodol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant (LADO), a fyddai'n gallu cynnig cyngor ac arweiniad. Yna bydd rheoli risg yn cael ei drafod gyda'r Rheolwr Cynhwysiant.

LADO – Rheolwr Amddiffyn Gwasanaethau Cymdeithasol Services (01685) 724686
Rheoli Risg – Rheolwr Cynhwysiant Adran Ysgolion (01685) 725082

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dwy ddogfen ganllaw i ysgolion ar ddelio â chwynion. Cylchlythyr 03/2004 'Gweithdrefnau Cwynion Cyrff Llywodraeth Ysgolion' a Chylchlythyr 011/2012 'Canllaw ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion ar Weithdrefnau ar gyfer Cwynion yn Cynnwys Disgyblion.' Disgwylir i'r dogfennau canllaw hyn gael eu hadolygu'n fuan.

O dan yr amgylchiadau hyn y pennaeth ddylai ymateb i'r gŵyn yn sgil polisi a gweithdrefn yr ysgol, oni bai bod y gŵyn yn erbyn y pennaeth ei hun. Gallai rhieni ddewis apelio yn erbyn ymateb y pennaeth. Ar yr adeg yma, gellir ymgynnull panel y llywodraethwyr.

Dylai cynnwys y rhai â chyfrifoldeb rhianta yn llawn yn dilyn y digwyddiad leihau'r siawns o gael cwyn yn erbyn defnyddio ymyriad corfforol ond ni fydd yn atal pob cwyn na honiad. Gellir gwneud honiadau o amrywiaeth o ffynonellau, nid dim ond gan y rhieni neu'r plant dan sylw.

Gall anghydfod arwain at honiad yn erbyn aelod o staff, a wneir i'r ysgol, asiantaethau eraill neu hyd yn oed yr heddlu. Dylid delio â'r rhain yn unol â'r polisi a'r weithdrefn y cytunwyd

